ateb Ymgysylltu

#ymgysylltu

# Diweddariad 6-Mis:

## AROLWG O WASANAETHAU GLANHAU ARDALOEDD CYFFREDIN 2025

**Os hoffech gael yr adroddiad hwn mewn unrhyw fformat neu iaith arall, mae croeso i chi gysylltu ag ateb**

## Chwefror 2026




## Diolch am eich cefnogaeth

**Os hoffech drafod â'r staff, a chwsmeriaid eraill ateb, y cynnydd sydd wedi'i wneud o safbwynt cyflawni'r camau gwella hyn, neu unrhyw agweddau eraill o'r arolygon a'r adroddiadau hyn, mae croeso i chi ddod i'n Grŵp Cynllunio Arolygon sydd ei chynnal ar yr ail ddydd Mawrth, o bron bob mis.**
**Cadwch lygad ar ein gwefan am fanylion pa gyfleoedd sydd ar y gweill.**

## Os yw'n bwysig i chi, yna mae'n bwysig i ni

## Diolch am eich holl gefnogaeth dros y 6 mis diwethaf

**Mae'r ddogfen hon yn rhannu gwybodaeth â chi am y gwelliannau y mae ateb yn eu gwneud/wedi'u gwneud i wasanaeth yn dilyn yr hyn y gwnaethoch ei ddweud wrthym mewn arolwg blaenorol.**

Isod, fe welwch ein **Hadroddiad Diweddaru** am yr arolwg canlynol:

➔ Ebrill/Mai 2025 — **Arolwg o Wasanaethau Glanhau Ardaloedd Cyffredin 2025**

---

# Arolwg o Wasanaethau Glanhau Ardaloedd Cyffredin 2025

### Pwrpas y thema:

Mae ychydig yn llai na 600 o gwsmeriaid ateb yn cael gwasanaeth glanhau ardaloedd cyffredin ateb. Cynhaliodd ateb arolwg ddwy flynedd yn ôl i ddadansoddi eich barn am y gwasanaeth hwnnw. Rydym yn cynnal yr arolwg newydd hwn yn 2025 i weld a yw eich barn wedi gwella, ar ôl i ni gyflwyno camau gweithredu llym yn dilyn arolwg 2023. Gallwch weld canlyniadau llawn arolwg 2023, gan gynnwys y camau gweithredu dilynol, yma.

Os bydd arolwg 2025 yn dangos nad ydym yn diwallu eich anghenion o hyd, bydd ateb yn cyflwyno camau gweithredu pellach.

### Pryd y gwnaethom gynnal yr arolwg?

Ym mis Ebrill a mis Mai 2025

**Os hoffech weld yr adroddiad llawn gwreiddiol am yr arolwg hwn, cliciwch yma.**

## Beth y gwnaethom ei ddarganfod 6 mis yn ddiweddarach?

Bu'r Grŵp Cynllunio Arolygon (sy'n cynnwys cwsmeriaid a staff ac sydd ar hyn o bryd yn agored i bob un o gwsmeriaid ateb) yn adolygu'r canlyniadau 6 mis yn ddiweddarach, a chyflwynodd yr argymhellion canlynol ar gyfer y 3 cham gwella gwreiddiol:

1. **Hyrwyddo manylebau glanhau i gwsmeriaid:**

a) Ar gyfryngau cymdeithasol, cyhoeddi 1 neges yr wythnos am 3 mis, gan dynnu sylw at ble y gall cwsmeriaid ddod o hyd i'r manylebau glanhau sy'n gysylltiedig â chontractau cwsmeriaid. **Wedi'i gwblhau**

b) Sicrhau bod fersiynau papur o'r manylebau glanhau sy'n gysylltiedig â chontractau cwsmeriaid yn amlwg a'u bod yn cael eu gosod ar hysbysfyrddau yn holl gynlluniau ateb ac ym mhob ardal arall, pryd bynnag y bo modd, lle caiff y gwasanaeth glanhau ardaloedd cyffredin ei gyflawni yn ateb. **Heb ei gwblhau**

**Diweddariad:**

I. Trefnu archwiliad ar hap ar sail rhaglen dreigl er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd.
II. Cadw lòg tystiolaeth y gellir cyfeirio ato yn y dyfodol.

c) Rhoi 1 neges ar wefan ateb, yn yr adran Newyddion a Digwyddiadau, sy'n nodi ble y gellir dod o hyd i'r manylebau glanhau sy'n gysylltiedig â chontractau cwsmeriaid. **Wedi'i gwblhau**

2. **Cysylltu â'r holl gwsmeriaid a roddodd sgôr islaw 3 allan o 5, er mwyn cael gwybod beth yn union yw'r broblem a phenderfynu a oes angen camau pellach. Wedi'i gwblhau**

**Diweddariad:**

Cafodd sgorau gwreiddiol a sgorau newydd cwsmeriaid, ar ôl i gamau ateb gael eu rhoi ar waith, eu cymharu â'i gilydd yng nghyfarfod y *Grŵp Cynllunio Arolygon* ar 09/12/25, ac roedd pawb yn cytuno bod y cam hwn wedi'i gwblhau gyda thystiolaeth dda. Roedd mwyafrif y cwsmeriaid wedi rhoi sgôr uwch, gan ddweud eu bod yn fodlon â'r gwelliannau.

3. **Rhannu'r canlyniadau â chydlynwyr cynlluniau byw'n annibynnol, er mwyn ceisio cael eglurder os cafodd cynlluniau ystod eang o ymatebion cadarnhaol a negyddol. Heb ei gwblhau**

**Diweddariad:**

I. Trefnu bod hwn yn cael ei gwblhau.
II. Darparu amserlen.
III. Darparu tystiolaeth i'w rhannu.

---

## YR HYN YR YDYM WEDI'I DDYSGU:

Drwy gynnal y broses gyfan, h.y. trefnu'r arolwg → cynnal yr arolwg → dadansoddi'r canlyniadau → rhestru meysydd ar gyfer gwella → gwneud y gwelliannau → gwirio'r gwelliannau a wnaed, rydym wedi dysgu:

"*Bod cyfathrebu'n allweddol i lwyddiant. Os na allwn ni yn ateb glywed barn y cwsmeriaid, ni fydd dim yn gwella.*" (Cwsmer)

---

# Beth fydd yn digwydd nesaf?

**Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir o ran cyflawni'r nodau hyn.**

*Diolch am eich cefnogaeth*

**Rydym wir yn ddiolchgar i bawb sy'n cymryd rhan yn y prosiectau hyn.**

***Hoffech chi wybod mwy neu godi mater?***

Anfonwch neges e-bost atom: engage@atebgroup.co.uk
Ewch i'n gwefan: www.atebgroup.co.uk
Ffoniwch ni: 01437 774766 / 07500 446611

---